Nehemeia: 464-424 cc

Adeiladwr Duw

Dyfalbarhad / ufudd-dod

Oes yna eglwys neu gapel yn eich ardal chi? Ys gwn i pwy fu wrthi'n codi'r adeiladau hyn? Dyma i chi stori am Nehemeia a fu wrthi'n adeiladu'r deml yn ninas Jeriwsalem.

Byw mewn gwlad bell, bell o'i gartref oedd Nehemeia. Roedd llawer o'i bobl wedi mynd yn ôl i fyw i'w gwlad eu hunain. Ond roedd Nehemeia wedi ei adael ar ôl yn y wlad bell. Gweithio ym mhalas y brenin roedd Nehemeia. Ef oedd yn gyfrifol am weini gwin i'r brenin. Gofynnodd y brenin iddo un diwrnod, "Nehemeia, rwyt ti'n edrych yn drist iawn. Beth sy'n bod?"

"Meddwl ydw i, Eich Mawrhydi, am fy ngwlad. Mae gen i hiraeth am fy ngwlad a'm pobl."

Yn fuan iawn ar ôl cael sgwrs efo'r brenin, fe ddaeth brawd Nehemeia a'i ffrindiau i'w weld i'r wlad bell.

"Beth sy'n digwydd yn ein gwlad?" meddai Nehemeia.

"Dim llawer," atebodd ei frawd. "Dydi'r tai ddim wedi'u hadeiladu. Mae'r deml wedi ei dinistrio i'r llawr. Does yna neb wedi cychwyn ailadeiladu'r deml. Mae'r lle yn edrych yn flêr a hagr."

Roedd hyn yn poeni Nehemeia'n fawr iawn. Gweddïodd ar Dduw. "O Dduw, gwrando ar fy ngweddi. Wnei di wrando a chadw at dy air? Rydym i gyd eisiau mynd adref yn ôl i'n gwlad ein hunain."

Y bore wedyn, aeth Nehemeia i'w waith ym mhalas y brenin. Roedd y brenin yn dal i sylwi bod Nehemeia yn drist.

"Beth wyt ti eisiau i mi wneud?" holodd y brenin.

"Os gweli di'n dda ga i fynd yn ôl i'm gwlad fy hun i ddechrau ailadeiladu'r ddinas?" gofynnodd Nehemeia.

Ymhen dim roedd ar ei ffordd adref. Ar ôl iddo gyrraedd, aeth am dro ar gefn ebol asyn o gwmpas y ddinas. Gwelodd fod yna lawer iawn o waith i'w wneud. Galwodd ar ei bobl a dywedodd wrthyn nhw, "Mae Duw wedi rhoi tasg arbennig i ni. Mae'n rhaid i ni ailadeiladu'r ddinas. Ond cofiwch, mi fydd Duw yn barod i'n helpu."

Dechreuodd y bobl adeiladu yn agos i'w cartrefi eu hunain. Ond roedd yn waith anodd iawn. Roedd y gelynion yn gwneud hwyl am eu pennau. Ond, pan welsant y muriau'n cael eu codi, roedd y gelynion yn troi'n gas iawn. Roedden nhw'n ceisio dymchwel y muriau. Roedd rhai o'r gweithwyr yn codi'r muriau a'r lleill yn gwylio'r gelynion. Roedd y gweithwyr yn cario cleddyfau gyda nhw.

Ar ôl i'r adeiladau gael eu gorffen, galwodd Nehemeia yr holl bobl at ei gilydd. Roedd y deml hefyd wedi ei hailadeiladu. Roedd y bobl i gyd yn hapus. "Mae'r ddinas a'r deml yn barod," meddai Nehemeia. "Fe allwn ni droi yn ôl at Dduw yn awr. Fe allwn ni addoli Duw yn y deml."

Cerddodd y bobl i fyny'r grisiau ar hyd muriau'r ddinas. Roedd pob un yn chwythu ei utgorn. Roedden nhw'n cerdded o gwmpas y ddinas. Roedd pob un ohonyn nhw'n hapus. Erbyn hyn roedden nhw wedi cyrraedd yn ôl i'w dinas eu hunain. Roedd Duw yn garedig iawn wrth ei bobl.

"Ti yn unig wyt Arglwydd."
Nehemeia 9:6

O Dduw,
diolch am bobl ym mhob oes,
sy'n gweld ymhell.
Amen.

Oes ganddoch chi weledigaeth? Sut y gallwn ni wella'r ysgol, a'r ardal rydym ni'n byw ynddi?